

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 93

Key Language

'ta /'te
wedi cael ei eni / ganwyd
gwell gan

New Words

dyro	give
proses	a process
ac o fewn dim	and in no time
tamaid	a snack, literally a bit,
gynnau	earlier
palu celwyddau	to tell lies, literally to dig up lies
gwrthwynebu	to oppose
i'r dim	just right
achlysur	an occasion
uchelgeisiol	ambitious
pam lai	why not, literally why less
'ta beth	anyway
go fuan	quite soon
bechod	a shame
hen bryd	high time, literally old time
hoe	a break
ers tro byd	for ages, literally since the turn of the world
digon o ryfeddod	wonderful, literally enough of a wonder
gwneith	NW/gwnaiff SW will do
i fod	should be, literally to be
swnan	a moaner
yn ei dagrau	in tears
taeru	to insist

Brian's had a troubled week. First of all Agnes has voiced her concerns about their son Rhodri's strange behaviour.

Brian - Mae o i'w weld yn ddigon hapus i mi...

Agnes - Roeddwn i'n amau ei fod e'n cael ei fwlio...Ond pan siaradais i â phennaeth ei flwyddyn e, dywedodd hi fod dim achos i fi boeni o gwbl...

Brian - Fasech chdi'n leicio i mi siarad efo hi?

Agnes - Wnelet ti? Dw i'n credu efallai cei di fwy o sens na fi...Ac efallai ei di at wraidd y problem.

Secondly, Brian's getting more and more suspicious as to whether Frank really is his child. It seems from Wendy's ill-considered disclosure to Chris Roberts, that his suspicion may be justified.

Wendy - I've told Brian a lie - a little white lie...But it's still a lie...And I'm just digging myself deeper and deeper into this dark hole...Gwnaeth Brian ofyn am weld birth certificate Frank, ti'n gweld...

Chris - Ond beth? Does dim un?

Wendy - Na, na. Mae yna un. It's right here...But for some stupid reason - I don't know why I said it - but when he asked me when Frank was born, I said it was on the seventeenth of August, whereas in fact, it was back in July.

Main Grammatical Points

1. When Brian demands a straight answer from Wendy, he says:

Dyro atab strêr i fi, 'ta. - Give me a straight answer, then.

Welsh conversation, like English, is punctuated by seemingly meaningless tags, like 'ta, which corresponds to the English 'then'. Listen to some other examples:

Be sy'n digwydd 'ta? - What's happening, then?
'Nawr 'te - Now then.

'ta is the form used in North Wales. In the south, you'll hear 'te
The full form is 'ynte'.

2. Brian finds it very difficult to understand why Wendy has told him Frank was born in August, when in point of fact his date of birth is July.

Brian - Pam doeddet ti ddim yn onest efo fi o'r cychwyn? Pam dweud bod Frank wedi cael ei eni ym mis Awst, pan mai diwedd Gorffennaf ganwyd o.

Note the 2 ways Brian says 'was born': (1) - *wedi cael ei eni* and (2) *ganwyd*.

Ganwyd is the past tense of the verb *geni* 'to be born'. *Ganwyd* doesn't change when referring to different persons.

Ganwyd fi - I was born.

Ganwyd fy merch - my daughter was born,

Ganwyd y plant - the children were born.

3. The Welsh way of saying 'if you'd prefer' is idiomatic and doesn't correspond to the English at all. Jenny says to Brian:

Os oes well gen ti... - if you'd prefer...

But, what the phrase means literally is: 'if it's better with you'.

Listen to some other examples of 'prefer' in different contexts

Mae'n well gen i goffi na sudd oren - I prefer coffee to orange juice

Mae'n well ganddi hi'r theatr na'r sinema - She prefers the theatre to the cinema.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 277

Brian storms out of the house after hearing that Wendy has lied to him.

Chris asks ex-wife Michelle for a favour; and Brian seeks medical advice from Jenny.

Geirfa

dyro	give
proses	a process
ac o fewn dim	and in no time

Golygfa 1

Wendy - Brian! Brian! Hang on!

Plis! Paid â mynd. Don't leave in a temper. Dere yn ôl i'r tŷ...

Brian - I beth? Y?

Wendy - Sa i moyn i ti adael am y gwaith yn teimlo fel hyn...

Brian - Dyro ateb strêth i fi ynte?

Wendy - Dere yn ôl i'r tŷ am eiliad...plis!

Brian -Does dim pwynt! Rwan cer o fy ffordd i!

Wendy - Brian, plis! Gwranda nawr...

Brian - Dw i wedi clywed digon o gelwyddau yn barod...

Wendy - Dw i wedi treal egluro...

Brian - Pam doeddet ti ddim yn onest efo fi o'r cychwyn? Pam dweud bod Frank wedi cael ei eni ym mis Awst, pan mai diwedd Gorffennaf ganwyd o.

Wendy - Doeddwn i ddim yn meddwl yn strêth...

Brian - Beth oeddech chdi'n trio'i guddio, Wendy?

Wendy - Dim. Sa i'n cwato dim.

Brian - Wel, i chdi gael deall: dwyt ti ddim yn gwneud job rhy dda o fy narbwylllo i fod chdi ddim yn trio cuddio rhywbeth! Rwan - gollwng ddrws y car yma!

Wendy - Ti yw tad Frank, Brian! Ti a neb arall! Dere i'r tŷ am eiliad.....Plis!

Golygfa 2

Chris - Someone's struck a lucky streak...

Michelle - Where the hell did you come from?

Chris - Trwy'r drws yna draw fan acw...Gwag yma heno.

Michelle - Ydy. Nawr. Early evening. Ond oedd hi'n uffernol o fishi amser cinio.

Chris - Ah-huh.

Michelle - What do you want, Chris?

Chris - Pint o' beer'll do nicely...So...shwt mae bywyd yn dy drin di?

Michelle - O.K'ish.

Chris - Good, good...Ti'n...emm... edrych yn grêt.

Michelle - If you pay me a compliment, it means you're after something. Ydw i'n iawn?

Chris - Maybe...

Michelle - Don't bullshit me, Chris...

Chris - Owcidowc...I'll be straight...Dw i yn y llys mewn tair wythnos...tair wythnos i heddiw to be exact...Ac mae Cathy Davies - she's my brief...Cathy's asked me to kindly contact you... as my ex and all that...

Chris - Hei! Dwyt ti ddim yn gwybod beth dw i'n mynd i ofyn eto!

Michelle - A character statement, right?

Chris - Yeah...Please...If you could...

Michelle - Cheek. Bog off out of my life, Chris.

Chris - Michelle...Mae hyn yn serious...I head-butted a woman copper...I could go down...Seriously...I could be looking at a few years inside...

Michelle - Not my problem.

Chris - I'm asking you...For...Well, just...Look, Michelle...We had something worthwhile between us...didn't we? Once? Please?

Golygfa 3

Jenny - Brian - dyma sypreis. Beth wyt ti'n wneud yn yr ysbyty yma?

Brian - Emmm...Wel...Wedi galw i dy weld di ydw i...

Jenny - Fi?

Brian - Ia...Mae gen i rywbeth...Rhyw fater personol iawn dw i eisiau'i drafod...

Jenny - Wyt ti eisiau i ni fynd i rywle mwy preifat...?

Brian - Na, na...Dim ond...Yyyyy...Sut mae Arwyn erbyn hyn? Wyt ti wedi clwyed rhywbeth ganddo fo?

Jenny - Gês i e-bost ganddo fo tua pythefnos yn ôl...Mae o'n honni ei fod o'n mwynhau ei hun, meddai fo...

Brian - Ac wedi setlo'n iawn yn Nairobi?

Jenny - Mae'n debyg. Ac yn mwynhau y gwaith hefyd.

Brian - Da iawn...emmm...yyyy...

Jenny - Gwranda, os oes well gen ti siarad efo doctor arall...

Brian - Na, eisiau gofyn gair o gyngor ydw i...Am... D.N.A.

Jenny - D.N.A.?

Brian - Ia...Os wyt ti am wybod os wyt ti'n dad i rywun...Mae yna brawf i'w gael, onid oes?

Jenny - Oes...

Brian - Wel...Ydy hi'n broses hir?

Jenny - Nac ydy, ddim o gwbl...Yr unig beth wyt ti'n gorfod ei gael ydy 'swab' o geg y fam, y tad a'r babi...

Brian - A dyna ni?

Jenny - A dyna ni. Ti'n gyrru'r cwbl i'r lab wedyn...Ac o fewn dim, rwyt ti'n cael y canlyniadau yn ôl. A dyna ni....

Brian - Iawn. Diolch. Dyna roeddwn i eisiau'i glywed. A dyna dw i eisiau ei wneud.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 278

Brian tells Wendy he wants a DNA test to find out who Frank's father is.

Jenny bumps into Chris on her way out of the Yacht Club. But he's only got one thing on his mind - he's at the Yacht Club to butter Michelle up.

Geirfa

tamaid	a snack, literally a bit
gynnau	earlier
palu celwyddau	to tell lies, to dig up lies
gwrthwynebu	to oppose
i'r dim	just right
achlysur	an occasion
uchelgeisiol	ambitious
pam lai	why not, literally why less
'ta beth	anyway
go fuan	quite soon
bechod!	what a shame!

Golygfa 1

Brian - O...i fyny'n y llofft oeddech chdi...?

Wendy - Ssssh!

Brian - Beth sydd?

Wendy - I've just put Vicky down. Ble wyt ti wedi bod? It's almost half nine...

Brian - Gweithio'n hwyr...

Wendy - Which you seem to do a lot of these days...Wyt ti wedi bwyta?

Brian - Do...Gês i ryw damaid gynnau...

Wendy - Would you mind getting me a glass of water? I want to give Frank a feed...

Brian - Pam wyt ti wastad eisiau yfed dŵr wrth fwydo?

Wendy - I get - beth yw thirsty hefyd?

Brian - Sychedig.

Wendy - Sychedig, ie. Whenever I breastfeed. Pan dw i'n bwydo ar y fron.

Brian - Wendy...?

Wendy - Ie? Beth?

Brian - Fel ti'n gwybod... Dydw i ddim yn hapus...Y busnes tystysgrif yma a'r ffaith bod chdi wedi bod yn palu celwyddau...

Wendy - Sa i wedi palu celwyddau...

Brian - Wyt ti wedi rhoi dau ddyddiad geni i fi...Un munud wyt ti'n dweud bod Frank wedi cael ei eni ym mis Awst...A'r munud nesaf wyt ti'n dweud ei fod o wedi ei eni ym mis Gorffennaf... Dydw i ddim yn gwybod beth i goelio...

Wendy - Ond dy fabi di yw e Brian...

Brian - Fel wyt ti'n mynnu dweud wrthyf i bob dydd...

Wendy - That's the plain, honest truth. But you still don't believe me.

Brian - Mae yna un ffordd o ffeindio allan onid oes?

Wendy - Beth wyt ti'n feddwl?

Brian - Cês i air efo Jenny...

Wendy - Dr Saunders?

Brian - Ie...Cês i air efo hi am wneud prawf D.N.A. Dwyt ti ddim yn gwrthwynebu gobeithio?

Wendy - Yyyy, nac ydw. Na. Dim o gwbl.

Brian - Dyna beth wnawn ni ynte.

Golygfa 2

Michelle - O.K. Ladies and gentlemen, it's time...Let's be having them glasses now...Home sweet home, please, ladies and gents...Home sweet home...

Jenny - Nos da...

Michelle - Wyt ti wedi cael amser da heno?
 Jenny - I'r dim. Gwych. Do wir.
 Michelle - A'r bwyd?
 Jenny - Ffantastig.
 Michelle - Beth oedd yr occasion, sori...achlysur?
 Jenny - Yr achlysur heno? Mae ffrind i ni - Dr Stopes - yn gadael Ysbyty Brynaber...Mae o wedi cael job arall yn Loughborough General Hospital...Mae o'n dechrau ddiwedd y mis...
 Michelle - Moving on and moving up, then?
 Jenny - Yn union... Ar y cyfan mae doctoriaid yn bobl uchelgeisiol iawn...Maen nhw'n mwynhau gweithio, ond fel ti'n gweld, maen nhw'n mwynhau ymlacio hefyd!
 Michelle - Yep. The work hard/play hard ethos?
 Jenny - Wel, pam lai ynte?
 Michelle - Dw i'n falch eich bod chi medics i gyd wedi joio heno, 'ta beth...
 Jenny - Dw i'n siwr byddwch chi'n ein gweld ni yma eto'n o fuan...
 Michelle - Let's hope so.
 Jenny - Hwyl Michelle!
 Michelle - Hwyl...
 Chris - Long time, no see - haia...
 Jenny - Dw i jest ar fy ffordd allan, Chris...Ydy hi'n bwrw glaw?
 Chris - Newydd ddechrau jest nawr...
 Jenny - Ydi hi'n bwrw'n drwm?
 Chris - Nac ydy. Jest bach o law mân, dw i'n credu...
 Jenny - Bechod wnes i ddim dod ag ymbarél efo fi.
 Chris - Ti moyn benthyc hon.
 Jenny - Dim diolch. Chris, mae'n rhaid i mi fynd. Rwan - plis wnei di symud allan o fy ffordd i?...
 Diolch. Nos da.
 Chris - Howdy!
 Michelle - Sori, ond dw i newydd . . .
 Chris - Allaf i brynu paced o grisps?
 Michelle - Pa flas?
 Chris - Unrhywbeth. Dere â thri i fi. Ti'n edrych yn grêt heno yma...
 Michelle - Chris - sa i moyn siarad. Dw i'n fishi? O.K.?
 Chris - O.K.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 279

Michelle and Brian discuss Chris's pending court case.

Wendy sees Jenny at the hospital and admits there may be some substance to Brian's suspicions.

Brian gets a call to say that Rhodri's gone missing.

Geirfa

hen bryd	high time, literally old time
hoe	a break
ers tro byd	for ages, literally since the turn of the world
digon o ryfeddod	wonderful, literally enough of a wonder
gwneith NW/gwnaiff SW	will do
i fod	should be
swnan	a moaner
yn ei dagrau	in tears
taeru	to insist

Golygfa 1

Brian - Paid â chymryd hyn yn 'wrong', Michelle...Ond rwyf ti'n edrych fel tasech chdi wedi bliino...

Michelle - Dw i wedi bliino... Roedd hi'n noson fawr yma neithwr...Roedd parti mawr o Ysbyty

Brynaber mewn yma...Some farewell do for one of the doctors...

Brian - Hen bryd i chdi gael hoe fach...

Michelle - Hoe fach?

Brian - Break. Gwyliau. Hen bryd i chdi fynd ar dy wyliau i rywle...

Michelle - Wyt ti'n hintio neu beth?

Brian - Beth? Fuaswn i'n mynd â chdi?

Michelle - If you were unattached - would you?

Brian - Efallai...Dibynnu...O bosibl...

Michelle - I'm a woman who never refuses a good offer.

Brian - Ie, wel...ahem...Diolch am y cinio...

Michelle - Croeso...

Brian - Beth ddwedaist ti wrth Chris wedyn?

Michelle - Chris?

Brian - Ie...Mae o wedi gofyn i chdi siarad drosto fo yn y llys, onid do...?

Michelle - Do...Ti'n iawn...

Brian - So...wyt ti am wneud?

Michelle - Wyt ti am wneud?

Brian - Ydw...Dw i wedi gaddo iddo fo...

Michelle - Sa i wedi penderfynu eto. Gaf fi weld...

Brian - Mae lot o ddrwgdeimlad rhyngddoch chi o hyd - mi ddywedodd o hynny wrthyf i. Ond mi ddywedodd o hefyd, mai colli chdi oedd camgymeriad mwyaf ei fywyd o...

Golygfa 2

Wendy - Doctor Saunders?

Jenny - Wel, wel! Wendy! Ers tro byd! Sut mae pethau?

Wendy - O.K. diolch. Mae babi arall gyda fi nawr...Dacw fe. Frank.

Jenny - Babi tlws. Mae o'n ddigon o ryfeddod, onid ydy?

Wendy - Mae digon o sw'n gyda fe 'ta beth! Lot mwy nag oedd gan Vicky...

Jenny - Ydy o'n cysgu'n weddol?

Wendy - Yn weddol, ydy...

Jenny - Dyna'r peth pwysicaf ynte?

Wendy - Dr Saunders...Emmm...Allaf i ofyn rhywbeth?

Jenny - Siwr iawn...Beth?

Wendy - Dw i'n deall fod Bri...Fod Brian wedi bod i'ch gweld chi...

Jenny - Mmmm-hmmm...

Wendy - Ie...Wel...Gallaf i egluro'r ...sori...beth yw background?

Jenny - Cefndir.

Wendy - Dyna fe. Cefndir. Allaf i egluro'r cefndir i chi...?

Jenny - Wrth gwrs.

Wendy - Gwnes i beth twp iawn...Dywedais i taw ym mis Awst cafodd Frank ei eni when in actual fact he was born in July...The end of July...But since then Brian's had a bee in his bonnet...And he's coughed up all kinds of lurid scenarios and now he wants cast iron confirmation that this poor baby is his...

Jenny - Paranoia, ie?

Wendy - Ie...And I know that he's asked you about a D.N.A. test...

Jenny - Sy'n beth di-lol iawn, os dyna sy'n dy boeni di.

Wendy - Dw i'n gwybod - dim trafferth o gwbl. Dyna beth ddywedodd Brian wrthyf i.

Jenny - Gobeithio gwneith hynny dawelu ei feddwl o.

Wendy - Ie...Dw i'n siwr gwnaiff e...

Jenny - Achos does dim amheuaeth mai Brian ydy tad Frank - oes yna?

Wendy - Ie, wel...That's the problem, see...That's my real dilemma...It could be Brian...But then again...I mean it's only a slim, slim chance, but it could be someone else as well...

Golygfa 3

Brian - Chris? Chris?

Chris - Beth, chief?

Brian - Wnei di ffonio Mrs Jarvis, George Street a dweud wrthi fydd ei char hi ddim yn barod tan bore yfory...

Chris - Unrhyw reswm?

Brian - Bydd rhaid i mi ordro spare part...Mae'r injian yn gollwng oel...Wneith o byth basio MOT...

Chris - Owcidowc...Ydy ei rhif hi lawr yn y llyfr yma?

Brian - I fod, ydy...Ar y gair! Hi sydd yna rwan. Mae'n siwr yn cwyno am yr oedi. Mae hi'n hen swnan o ddynes...

Chris - Wyt ti am i fi ateb y ffôn?

Brian - Na. Well i mi wneud...

Helo...Garej Brynaber... O, chdi sydd yna...Na, na - disgwyl rhywun arall oeddwn i... Na, ddim Wendy - rhyw gwsmer...Beth sydd? Pam wyt ti'n crio? Beth sydd wedi digwydd...? O... Wel, na - dw i heb ei weld o...Pryd wnaeth hyn ddigwydd?...Ydy'r heddlu yn gwybod? Na, na - dof i draw rwan, Agnes... lawn?

Chris - Problem?

Brian - Rhodri.

Chris - Beth am 'bytu fe?

Brian - Aeth Agnes â fo i'r ysgol y bore yma...Ond mae rhywun newydd gysylltu i ddweud eu bod nhw heb ei weld o trwy'r dydd...

Chris - Roeddwn i'n arfer misho ysgol hefyd...

Brian - Ond dyna'r peth. Dydy Rhodri erioed wedi gwneud hynny o'r blaen...

Chris - Mae achos gyda ti i fecso - oes e?

Brian - Oes...Mae Agnes yn ei dagrau...Mae hi'n taeru bod Rhodri jest wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear...

Synopsis

Wendy's been to the hospital to have the DNA test which Brian has demanded. When Jenny tries to reassure Wendy that there's nothing scary about the test, particularly if the paternity's not in doubt, but Wendy is forced to admit that there could be a bit of a problem...

But the question of Frank's paternity is the least of Brian's worries. He receives an alarming phone call from his ex-wife Agnes telling him that Rhodri has gone missing.

Test yourself

1. Does *nawr 'ta* mean
 - (a) **now then**
 - (b) now and again
 - (c) no time
2. How would you translate *o fewn dim*
 - (a) nothing left
 - (b) **in no time**
 - (c) no-one in
3. Does the expression *hen bryd* mean
 - (a) a long time ago
 - (b) the olden days
 - (c) **high time**
4. If you had seen someone a short while ago, what would you say
 - (a) Mi welais i o ers talwm
 - (b) **Mi welais i o gynne**
 - (c) Mi welais i o gynt
5. If everything is *i'r dim*, is it
 - (a) **just right**
 - (b) all wrong
 - (c) finished
6. How would you say something is brilliant or wonderful
 - (a) digon am ryfeddod
 - (b) **digon o ryfeddod**
 - (c) digon â rhyfeddod

